



Caerdydd
Ddwyieithog



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-21

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n sefydlu sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyeithog

1. Cyflwyniad

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol.

Cwynion
Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.
Sgiliau Cymraeg Cyflogeion
Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw.
Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
<ul style="list-style-type: none">• Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.• Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn honno, canran cyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg
Swyddi a Hysbysebwyd
Nifer y swyddi newydd ac a oedd yn wag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle — <ul style="list-style-type: none">• mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol,• bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd,

- mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu
- nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer pob un o'r safonau.

Cytunir ar Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-21 gan y Cyngor llawn a'i gymeradwyo, cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol y safonau.

Caiff yr adroddiad ei ystyried yn y Cabinet ar 17 Mehefin 2021 a'r Cyngor llawn ar 24 Mehefin 2021 ac ar ôl hynny bydd yn cael ei roi ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/caerdyddddwyieithog

2. Llwyddiannau

- Cymeradwywyd Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd Cyngor Caerdydd gan y Cabinet ar 25 Chwefror 2021 a'i lansio fel rhan o neges Dydd Gŵyl Dewi yr Arweinydd. Gweler **Adran 4.** am fanylion pellach.
- Lanswyd modiwl Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg newydd Cyngor Caerdydd yn 2020/21 ac fe'i cwblhawyd gan **3470** aelod o staff.
- Yn 2020-21, cymerodd **167** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg.
- Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu gan **7.86%** ychwanegol ers 2019-20 pan cafwyd cynnydd o **48.4%** yn nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.
- Dyrannwyd **764** o leoedd Derbyn i ddisgyblion o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer Medi 2020, sef **18.5%** o'r cyfanswm lleoedd a dderbyniwyd o fewn ysgolion cynradd ar draws y ddinas. Dyma'r canran uchaf i dderbyn lleoedd o fewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.
- Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **11,624,764 o eiriau** yn ystod 2020-21 (dychwelwyd **99.6%** o bob cais yn ôl i'r cleient erbyn y terfyn amser a gytunwyd). Mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â 2019/20.
- Ymgysylltodd dros 25,000 o bobl â Gŵyl Tafwyl, a gynhaliwyd yn ddigidol o ganlyniad i'r cyfyngiadau sydd ar waith oherwydd argyfwng Covid-19. Cefnogir gŵyl Tafwyl gan y Cyngor, ac yn 2020-21 cafodd ei ffrydio'n fyw o Gastell Caerdydd.

- Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymreig fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a Diwrnod Hawliau eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.
- Cynhaliodd C4, grŵp siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Cyngor Caerdydd, ddigwyddiad dydd Gŵyl Dewi rhithwir gyda siaradwr gwadd ar 1 Mawrth 2021 a fynychwyd gan dros **40** aelod o staff.
- Hysbysebodd y Cyngor **26** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **227** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol. Mae nifer y swyddi Cymraeg dymunol a hysbysebir yn cynrychioli cynnydd o **114%** ar 2019/20.

3. Argyfwng Covid-19

Mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn heriol ac yn wahanol i unrhyw flwyddyn arall i Gyngor Caerdydd. Mae'r cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i argyfwng Covid-19 wedi golygu newid sylfaenol yn nulliau gweithio'r Cyngor a defnydd y cyhoedd yn defnyddio o'i wasanaethau. Rhoddwyd mesurau ar waith i hwyluso gweithio gartref a darpariaeth gwasanaethau drwy lwyfannau digidol. Mae hyn wedi profi pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ond mae darparu gwasanaeth Cymraeg wedi dod â rhai heriau penodol.

Cyfathrebiadau Covid – mae natur argyfwng Covid-19 wedi golygu bod angen anfon nifer o gyfathrebiadau brys gan y Cyngor i ddinasyddion Caerdydd. Mae'r tîm Caerdydd Ddwyieithog wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r tîm Cyfathrebu ac yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau i'r cyhoedd a staff yn ddwyieithog yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Fel y dangoswyd yn **Adran 5** o'r adroddiad, mae **99.6%** o'r ceisiadau cyfieithu wedi cael eu dychwelyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, sy'n dyst i waith caled ac ymroddiad y tîm.

Gwasanaethau ffôn – Mae Cyngor Caerdydd wedi ymdrechu i sicrhau bod ei wasanaethau ffôn a chanolfannau galwadau yn parhau i ddarparu gwasanaeth di-dor i ddinasyddion Caerdydd. Oherwydd bod y mwyafrif llethol o wasanaethau wyneb yn wyneb wedi cael eu hatal, y gwasanaeth ffôn oedd yr unig ffordd i lawer drafod materion a chael cyngor. Mae gwasanaethau fel C2C wedi parhau'n weithredol ac wedi darparu gwasanaeth dwyieithog drwy gydol y pandemig. Mae'r tîm Caerdydd Ddwyieithog hefyd cynnig cymorth i swyddogion unigol y Cyngor drwy gofnodi negeseuon dwyieithog ar gyfer eu ffonau symudol er mwyn sicrhau bod pob dinesydd yn cael cynnig y cyfle i ddelio â'u hymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfarfodydd rhithwir - Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio llwyfan Microsoft Teams ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithwir. Gwnaed y penderfyniad hwn gan fod pryderon ynghylch cadernid mesurau diogelwch Zoom. Nid yw Teams yn cefnogi sianel cyfieithu ar y pryd bwrpasol ar y pryd. Roedd hyn yn golygu bod angen datblygu gwaith gan ddefnyddio cyfleuster galwadau cynadledda ar ffôn symudol fel ffynhonnell ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu. Mae cyfarfodydd gwe-ddarlliediad fel cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor hefyd wedi'u darparu ar fersiynau Cymraeg a Saesneg gwefan y Cyngor ac wedi'u hategu gan negeseuon trydar dwyieithog ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Ar hyn o bryd mae Cyngor

Caerdydd yn ailedrych ar lwyfan Zoom ar gyfer cyfarfodydd dwyieithog gan fod hyn yn cynnwys sianel sain ychwanegol bwrpasol a gobeithiwn gyflwyno hyn unwaith y bydd pryderon diogelwch a phryderon eraill wedi cael eu datrys.

Gwaith cyfieithu – mae cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd gan Caerdydd Ddwyieithog wedi gostwng ychydig yn 2020/21. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r tarfu ar fusnes arferol y Cyngor yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf a gostyngiad yn y gwaith cyfieithu a dderbyniwyd gan ein cleientiaid allanol. Fodd bynnag, cafwyd cynnydd sylweddol mewn gwaith cyfieithu brys sy'n gysylltiedig â Covid, gyda therfynau amser cyfieithu eithriadol o dynn ac roedd angen eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod dinasyddion Caerdydd yn derbyn eu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd ac yn unol â'u dewis iaith.

4. Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd

Yn dilyn argymhellion a wnaed gan aelodau Gweithgor Ddwyieithog Caerdydd, cafodd Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ddiwygio'n helaeth yn 2020/21. Lansiodd y Strategaeth ddiwygiedig ar 1 Mawrth 2021 fel rhan o neges Dydd Gŵyl Dewi Arweinydd y Cyngor.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys dau gam gweithredu i'w rhoi ar waith ar unwaith:

- Holl staff y Cyngor i gael y cyfle i ymgysylltu â hyfforddiant iaith Gymraeg i gyrraedd lefel rhuglder sy'n cyfateb i Lefel 1 ar y fframwaith ALTE.
- Yr holl rolau sy'n delio â chwsmeriaid i gynnwys sgiliau iaith Gymraeg a/neu sgiliau iaith gymunedol fel gofyniad dymunol.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn rhoi arweiniad i reolwyr a staff ar gynnal asesiadau yn y gweithle, cofnodi sgiliau iaith Gymraeg staff, a nodi rolau fel rhai Cymraeg hanfodol.

Er mwyn cefnogi'r camau hyn, cynhyrwyd nifer o ddogfennau canllaw hefyd:

- Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol.
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.
- Dewislen gynhwysfawr o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg.

Bydd dogfennau canllaw pellach, a diwygiadau i ganllawiau cyfredol, yn cael eu datblygu yn ystod 2021/22 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

5. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2021

Datganiad Cenhadaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Bydd pob plentyn yn ein dinas yn hyderus yn eu Cymraeg erbyn 2050, er mwyn cyfrannu at greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle y caiff y Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Gweledigaeth WESP

Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chreu siaradwyr newydd, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cynyddodd nifer y disgyblion a gofrestrwyd wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson rhwng 2005/06 a 2012/13, er bod canran y cyfanswm a oedd yn derbyn lleoedd yn amrywio. Mae niferoedd a chanrannau ers hynny wedi amrywio, ond gyda'r duedd gyffredinol tuag at gynydd yn y ddau. Roedd y ganran a'r nifer o ddisgyblion oedd wedi'u cofrestru yn 2020/21 yn cynrychioli canran uchaf Caerdydd o ddisgyblion mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg. Gan fod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y disgyblion a gofrestrwyd mewn dosbarthiadau Cymraeg â phoblogaeth disgyblion, sy'n gallu esgyn neu ddisgyn, mae cynnydd yn y ganran yn fesur mwy priodol o lwyddiant hybu addysg Gymraeg.

Gweler tabl 1 isod:

Blwyddyn Ysgol	Nifer derbyn gwirioneddol (C)	Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)	% Nifer derbyn gwirioneddol (C)	Blwyddyn Ysgol	Nifer derbyn gwirioneddol (C)	Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)	% Nifer derbyn gwirioneddol (C)
2005/06	455	3,402	13.4%	2013/14	678	4,256	15.9%
2006/07	465	3,257	14.3%	2014/15	706	4,246	16.6%
2007/08	519	3,463	15.0%	2015/16	690	4,335	15.9%
2008/09	555	3,474	16.0%	2016/17	744	4,340	17.1%
2009/10	572	3,683	15.5%	2017/18	707	4,098	17.3%
2010/11	594	3,859	15.4%	2018/19	702	4,125	16.9%
2011/12	651	4,019	16.2%	2019/20	683	4,119	16.6%
2012/13	686	4,221	16.3%	2020/21	764	4,122	18.5%

Tabl1: Niferoedd a chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg cyfrwng Cymraeg o 2005/06 i 2020/21

Dyrannwyd 764 o leoedd Derbyn i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer Medi 2020, sef **18.5%** o'r cyfanswm lleoedd ar draws y ddinas. Dyma'r nifer uchaf i dderbyn lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.

Mae data dewis cynnar ar nifer y disgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2021 yn awgrymu gostyngiad yng nghyfanswm nifer y disgyblion o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau.

Rhagwelir gostyngiad pellach yng nghyfanswm y derbyniadau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022 a 2023. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn debygol o arwain at ostyngiad pellach yn y nifer wirioneddol yo ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae mwy o leoedd gwag yn caniatáu i gyfran uwch o'r boblogaeth gofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Dosbarth Derbyn. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd Cymraeg sydd ar gael adeg mynediad i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 22% o'r boblogaeth ddisgyblion a ragwelir yn 2022 a 2023. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg i ganiatáu cynnydd sylweddol o ran nifer y lleoedd a dderbynnir.

Canolbwyntir ar sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o arian cyhoeddus, gyda'r gydnabyddiaeth bod adnoddau ariannol yn gyfyngedig. Mae datblygu partneriaethau cryf i alluogi cyflawni canlyniadau gwella o sylfaen adnoddau sy'n lleihau yn bwysig. Mae Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd wedi bod yn bartneriaid allweddol wrth helpu i arwain a llywio datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas ac wedi chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r uchelgeisiau yn WESP 2017-2020. Bydd y Gronfa yn parhau i chwarae rhan bwysig yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-31. Disgwylir i'r ymgynghoriad ar y WESP newydd hwn gael ei gynnal rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2021. Yna caiff ei anfon at y Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2022. Bydd y WESP yn canolbwyntio ar sut i gyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer Caerdydd o rhwng 25% a 29% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2030-31.

Mae [Cynllun Cymraeg mewn Addysg 2017-2020](#) sydd wedi'i gymeradwyo i'w weld ar wefan y Cyngor.


Amcanion 2020/21

- Symud ymlaen i sefydlu Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i wasanaethu ardal Datblygiad Plas Dŵr ym Mhentre-poeth / Radur ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r cynnig ym mis Mehefin 2020.
- Datblygu cynigion i wella darpariaeth feithrin ar draws Caerdydd.

- Parhau i ddatblygu cynigion i wella'r ddarpariaeth gynradd yng nghanol Caerdydd yn dilyn ymgynghoriad ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ym mis Mawrth 2021.

6. Cyfieithu Cymraeg

Dychwelwyd **99.6%** o geisiadau cyfieithu gan Gaerdydd Ddwyeithog erbyn terfynau amser cytunedig (**11,578,265** o eiriau). Mae cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd (**11,624,764 gair**) ychydig yn is na'r cyfanswm ar gyfer 2019/20 sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebwyd gan Gyngor Caerdydd a chwsmeriaid cyfieithu allanol Caerdydd Ddwyeithog o ganlyniad i argyfwng Covid-19.



7. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg 2020/21

Yn ystod 2020-21, derbyniwyd cyfanswm o **6** o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Pa un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r [weithdrefn gwyno gorfforaethol](#).

Roedd y Cyngor hefyd yn destun **6** ymchwiliad newydd i'r methiant posibl o gydymffurfio â'r safonau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn 2020/21, derbyniodd y Cyngor:

- **5** ymchwiliad yn aros am benderfyniad dros dro. Maent yn parhau.
- **1** ymchwiliad pan fo'r Cyngor wedi hysbysu Comisiynydd y Gymraeg nad oedd pwnc yr ymchwiliad yn dod o fewn ei feysydd cyfrifoldeb. Mae hwn wedi'i gau.

Mae cofrestr o gamau gorfodi ar gael i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Mae nifer yr ymchwiliadau newydd a dderbyniwyd gan gomisiynydd y Gymraeg (**6**) yn is nag yn 2019/20(**11**), gostyngiad o **45.5%**.

8. Swyddi a hysbysebwyd yn 2020-21

Yn ystod 2020-21 hysbysebwyd **1246** o swyddi, cynnydd o 1.6% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Hysbysebwyd **26** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, gostyngiad o 26% ar ffigur 2019-20
- Hysbysebwyd **227** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, cynnydd o 144% ar ffigur 2019-20
- Hysbysebwyd **84** o swyddi lle'r oedd ail iaith yn ddymunol ac y gallai'r ail iaith honno fod y Gymraeg.
- Hysbysebwyd **909** o swyddi nad ydynt yn gofyn am unrhyw sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, gostyngiad o 17% ar ffigur 2019-20.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol yn unig.**

Rhwng diwedd Mawrth 2020 a Gorffennaf 2020 roedd yr unig rolau a hysbysebwyd yn y categorïau canlynol oherwydd yr angen i flaenoriaethu meysydd recriwtio:

- Hanfodol i barhad busnes y Cyngor; neu
- Hanfodol i'r ymateb i'r pandemig; neu
- Rolau a oedd fel arfer yn anodd eu llenwi e.e. Gweithwyr Cymdeithasol Plant.

Gallai hyn fod wedi effeithio ar nifer y rolau a hysbysebwyd fel rhai Cymraeg Hanfodol.

Nid oes gwybodaeth ar hyn o bryd gan y Cyngor yn ymwneud â sgiliau Cymraeg y mae angen eu dysgu pan gaiff pobl eu penodi i swyddi sy'n dynodi bod y Gymraeg naill ai'n hanfodol, yn ddymunol neu nad oes ei hangen, dan Strategaeth Sgiliau Cymraeg y Cyngor.

9. Cyrsiau Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Yn 2020-21, cymerodd **167** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg, ac o'r rhain:

- mynychodd **4** aelod o staff gyrsiau Cymraeg a ddarparwyd gan Brifysgol Caerdydd.
- mynychodd **1** aelod o staff gwrs hyfforddi a ddarparwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro.
- mynychodd **126** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a ddatblygwyd yn fewnol gan Academi Cyngor Caerdydd ac mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a chyrsiau byr (**68** mynychwr), cyrsiau dwys 120 awr (**57** mynychwr) a sesiwn fentora (**1** mynychwr).
- cwblhaodd **36** aelod o staff y cwrs ar-lein 60 awr i ddechreuwr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.

Ar ben hyn:

- Cwblhaodd **3470** aelod o staff e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith newydd Cyngor Caerdydd yn **2020/21**.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn Hyfforddiant Iaith Gymraeg a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar System AD fewnol y Cyngor (DigiGOV).

Mae safon rhif 128 wedi'i chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, sy'n nodi bod rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- Sefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2020-21 **ni chafwyd unrhyw** geisiadau am hyfforddiant yn Gymraeg. Cyflwynir y cyrsiau canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (modiwl ar-lein)
- Seiberddiogelwch 1, 2 a 3 (modiwl ar-lein)
- Hawliau Plant (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg (modiwl ar-lein)
- Gwasanaeth Cwsmeriaid (modiwl ar-lein)
- Bob's Business: GDPR (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Twyll (modiwl ar-lein)
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu (modiwl ar-lein)

Mae Academi Caerdydd yn bwriadu ychwanegu cwestiwn penodol ar gyfrwng cyflwyno i'r broses gofrestru yn y dyfodol i sicrhau bod hyfforddiant yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a bod staff yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn hyfforddiant yn y meysydd uchod, yn Gymraeg. Lle mae'r galw'n ddigonol, byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

10. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Gyda datblygiad y system AD (DigiGov) a'r cyfle i aelodau o staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) aelodau o staff. Ar 31 Mawrth 2021, nodwyd bod **6527** o aelodau o staff (nad ydynt mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o **4,594** o aelodau o staff eu cofnodion ar y system AD. O'r rhain mae **837** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn gynydd ar y nifer a adroddwyd yn 2019/20 (**776**) ac mae'n cynrychioli **18%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar y system.

Cyfrif Hyfedredd yn y Gymraeg	Hyfedredd yn y Gymraeg						Canran y staff gwasanaeth
	Lefel Mynediad	Sylfaenol	Canolradd	Uwch	Hyfedr	Cyfanswm	
Gwasanaeth							
DATBLYGU ECONOMAIDD	45	15	18	9	13	100	6.08%
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (Ac eithrio ysgolion)	42	8	12	8	22	92	11.26%
OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU	183	67	45	34	34	363	13.6%
GWASANAETHAU PLANT	27	11	6	5	13	62	12.32%
PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU	6	6	1	1	17	31	43.66%
CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD	26	5	4	2	6	43	6.53%
CYFARWYDDIAETH ADNODDAU	64	24	16	12	30	146	15.77%
Cyfanswm (Ac eithrio ysgolion)	393	136	102	71	135	837	11.96%

Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu gan **7.86%** ers 2019-20 a **60%** ers 2018-19 (**837 yn 20/21** gymharu â **776 yn 19/20** a **523 yn 18/19**). Priodolir y cynnydd i well trefniadau cofnodi a chodi ymwybyddiaeth, y Strategaeth Caerdydd Ddwieithog (sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg) a chysiau Cymraeg a ddarperir yn fewnol drwy ein tiwtor Cymraeg mewnol yn ogystal â'r Cynllun 'Iaith Gwaith'. Croesawyd y cynnydd bach yn ystod 20/21 yn ystod blwyddyn anodd i staff oherwydd pandemig COVID 19 sydd wedi gadael llawer o staff â phwysau gwaith ac yn y cartref. Atgoffir staff yn rheolaidd i ddiweddarau eu cofnodion manylion personol ar DIGIGOV, sy'n cynnwys hyfedredd yn y Gymraeg.

11. Mwy na Geiriau

Fframwaith Strategol ar gyfer yr Iaith Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Caerdydd – mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – yn gweithredu Fforwm Iaith Gymraeg i barhau ag amcanion Mwy na Geiriau.

Mae argyfwng Covid-19 wedi tarfu ar gyfarfodydd y Fforwm. Fodd bynnag, ailddechreuodd cyfarfodydd misol rhwng partneriaid y Fforwm Mwy Na Geiriau ym mis Ionawr 2021 gyda'r bwriad o ail-gysylltu â'r Fforwm yn 2021/22. Trafodwyd nifer o themâu a chamau gweithredu yn y cyfarfodydd misol gan gynnwys rhannu adnoddau (fel e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith Gymraeg diwygiedig Cyngor Caerdydd a Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg), cynyddu aelodaeth y Fforwm i gynnwys darparwyr hyfforddiant gofal cymdeithasol a phartneriaid addysg uwch, a mentrau recriwtio i annog siaradwyr Cymraeg i fynd i faes gofal cymdeithasol.

12. Monitro a Goruchwyllo Cydymffurfiaeth â'r Safonau

CYDLYNWYR A PHENCAMPWYR Y GYMRAEG

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ledled ein Cyfarwyddiaethau a'n Gwasanaethau amrywiol, sy'n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwieithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol. Mae swyddogaeth rhwydwaith y cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu gyfarwyddiaeth i gydymffurfio â pholisïau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor parthed y Gymraeg.
- Rhoi adborth ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan y gwasanaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth ar unrhyw gwynion neu faterion yn ymwneud â'r Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu gwasanaeth i'r Adroddiad Blynyddol ar weithrediad safonau'r Gymraeg.

Nid oes angen i gydlynwyr a phencampwyr siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol dros enwebu o leiaf un Cydlynnydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli eu cyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar lefel uwch reoli yn gysylltiedig â materion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Maen nhw hefyd yn monitro agendâu grwpiau uwch reoli ar gyfer eitemau yn ymwneud â goblygiadau Safonau'r Gymraeg a chefnogi Cydlynnydd Cymraeg eu gwasanaeth ar hwyluso gweithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cadeirio gan Gaerdydd Ddwyeithog.

GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG

Mae'r Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog yn grŵp traws blaid a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd cwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gyrchu gwasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu'r llall yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2020-21 cyfarfu'r grŵp 4 gwaith i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg, darparu gwasanaethau yn ystod argyfwng Covid-19, diwygio'r Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog ar gyfer 2023-2028 (Safon 145), a diwygio Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg y Cyngor.

CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETHAU

Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, mae gofyn i bob cyfarwyddiaeth gynnwys amcan/amcanion yn ymwneud â chyflawni safonau'r Gymraeg o fewn Cynlluniau Cyflawni eu Cyfarwyddiaethau yn flynyddol er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar ofynion y safonau. Mae'r holl bwyntiau gweithredu sy'n deillio o Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg bellach wedi'u cynnwys yn y cynlluniau cyflawni ar gyfer y Gyfarwyddiaeth berthnasol.

UWCH DÎM RHEOLI

Mae materion yn ymwneud â safonau'r Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd yr UDRh er gwybodaeth a llywio.

Y CABINET A'R CYNGOR LLAWN

Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y lefel uchaf.

13. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau

HYFFORDDIANT CYMRAEG

Mae'r ddewislen o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff a gynhyrchir gan Academi Cyngor Caerdydd i gefnogi gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg wedi'i chynnwys fel **Atodiad 2**.

CANLLAWIAU STAFF

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso rhoi'r safonau ar waith, mae'r Cyngor wedi creu a diweddarau canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o 'Safonau Cyflawni Gwasanaeth'
- Cyfathrebu'n Ddwieithog
- Gwasanaeth Ddwieithog Derbynfydd
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwieithog
- Galwadau Ffôn Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Ddwieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw Camau Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Partion
- Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar dudalen Mewnwyd Caerdydd Ddwieithog ac wedi eu hyrwyddo'n gyson i staff trwy ddulliau cyfathrebu cyfarwydd gan gynnwys y Briff Craidd misol a chylchlythyron 'Welsh Matters' sy'n cael eu dosbarthu i'r holl staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan mewnwyd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau o staff ar dudalen fewnwyd Caerdydd Ddwieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais am gyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais am gyfieithu wedi'u diweddarau i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 4 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

BRÏFF 'WELSH MATTERS'

Dosberthir y briff Welsh Matters i staff drwy'r rhwydwaith cydlynwyr iaith Gymraeg. Mae'r briff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am hyfforddiant Gymraeg ac erthyglau eraill yn ymwneud â'r agenda iaith Gymraeg.

CLWB CYMDEITHASOL C4

Mae adnodd i hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau Rhithwir Gymraeg wedi cael ei ddatblygu a'i lansio gan hyfforddwr Gymraeg mewnol y Cyngor. Cyflwynir yr adnodd ar lwyfan Microsoft Teams ac mae'n caniatáu i ddefnyddwyr sefydlu cyfarfodydd, grwpiau trafod a digwyddiadau cymdeithasol fel y gall siaradwyr Gymraeg a dysgwyr gyfarfod i sgwrsio yn Gymraeg a gwella sgiliau iaith. Lanswyd y clwb cymdeithasol ar Ddydd Gŵyl Dewi gyda sgwrs gan Yvonne Evans, cyflwynydd ar raglenni Prynawn a Heno S4C, gyda dros 40 o aelodau o staff Cyngor Caerdydd yn bresennol.

CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYNGOR CYFIEITHU A PHOLISI

Mae Caerdydd Ddwyeithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Gymraeg a chyfieithu ar y pryd llawn i bob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor. Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chyngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar ran y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i Safonau'r Gymraeg statudol.

HYFFORDDIANT CYMRAEG

Cefnogir staff i ddefnyddio eu sgiliau Gymraeg wrth gyfathrebu â'r cyhoedd. Datblygwyd dewislen o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg gan Lwyfan Dysgu Academi Cyngor Caerdydd i gefnogi'r ymrwymiad i roi cyfle i'r holl staff ddysgu Gymraeg. Mae'r opsiynau hyfforddi yn amrywio o sesiynau blasu byr i gyrsiau gwella Gymraeg dwys 120 awr ac mae'r holl gyfranogiad yn gweithio i gefnogi staff i gyrraedd lefel rhuglder yn y Gymraeg sy'n hafal i Lefel 1 ar fframwaith rhuglder ALTE.

Darperir hyfforddiant iaith Gymraeg gan hyfforddwr iaith Gymraeg Academi Caerdydd a gall staff ddewis hyfforddiant mewnol, cyrsiau a ddarperir gan bartneriaid fel y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol, neu ddysgu yn y gymuned. Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i Covid-19 mae hyfforddiant brys wedi'i ddarparu mewn modd rhithwir ar lwyfannau digidol.

Ceir cyllideb gorfforaethol ar gyfer hyfforddiant Gymraeg, felly mae'r cyrsiau am ddim i staff Cyngor Caerdydd a chredydir oriau staff am yr amser a neilltuir ganddynt wrth fynychu cyrsiau.

HYFFORDDIANT YMWHYBYDDIAETH IAITH

Diwygiwyd y modiwl ymwybyddiaeth iaith yn 2020/21 a'i gyflwyno fel e-fodiwl gan lwyfan dysgu Academi Cyngor Caerdydd. Mae IT yn cael ei gyflwyno i'r holl staff ar hyn o bryd (gan gynnwys staff ysgolion). Ar ddiwedd 2020/21 roedd **3470** o aelodau o staff wedi'i gwblhau.

Mae'r e-fodiwl yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Cyd-destun hanesyddol y Gymraeg.

- Pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion Caerdydd.
- Rôl a chyfrifoldeb staff o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut y darperir gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd sydd i'w gwella.

LANIARDIAU A BATHODYNNAU 'IAITH GWAITH'

Cynhyrchir laniardiau Iaith Gwaith gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr bod staff yn siarad Cymraeg. Cynigir y laniardiau hyn ynghyd â laniardiau dysgwr Cymraeg i staff pan fyddant yn derbyn neu'n adnewyddu cardiau adnabod staff, neu maent ar gael ar unrhyw adeg gan y tîm Caerdydd Ddwyieithog. Mae pob briff misol "Materion Cymraeg" sy'n cael ei ddsbarthu i bob aelod o staff trwy Gydlynnydd Iaith Gymraeg eu Cyfarwyddiaeth neu eu gwasanaeth yn cynnwys nodyn i atgoffa staff i ofyn am y laniardau gan dîm Caerdydd Ddwyieithog.